

Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Deiliadaeth

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhoi daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhoi daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

| Deiliadaeth | Sir Gaerfyrddin | | | | Cymru | | | | Cymru a Lloegr | | | |
|---|-----------------|-------|--------|-------|-----------|-------|-----------|-------|----------------|-------|------------|-------|
| | 2011 | | 2021 | | 2011 | | 2021 | | 2011 | | 2021 | |
| Pob aelwyd | 78,829 | | 81,759 | | 1,302,676 | | 1,347,117 | | 23,366,044 | | 24,783,199 | |
| Yn berchen ar yr eiddo | | | | | | | | | | | | |
| Yn berchen ar yr eiddo yn llwyr | 32,648 | 41.4% | 35,629 | 43.6% | 461,370 | 35.4% | 512,089 | 38.0% | 7,206,954 | 30.8% | 8,136,782 | 32.8% |
| Yn berchen ar yr eiddo gyda morgais neu fenthyciad | 23,678 | 30.0% | 21,936 | 26.8% | 417,284 | 32.0% | 377,827 | 28.0% | 7,646,724 | 32.7% | 7,122,199 | 28.7% |
| Rhannu perchenogaeth (Yn berchen ar yr eiddo yn rhannol ac yn ei rentu'n rhannol) | 178 | 0.2% | 209 | 0.3% | 4,476 | 0.3% | 4,283 | 0.3% | 178,236 | 0.8% | 240,234 | 1.0% |
| Rhentu cymdeithasol | | | | | | | | | | | | |
| Rhentu gan y cyngor (Awdurdod Lleol) | 8,833 | 11.2% | 8,540 | 10.4% | 128,302 | 9.8% | 116,637 | 8.7% | 2,208,080 | 9.4% | 2,061,789 | 8.3% |
| Arall | 2,839 | 3.6% | 3,158 | 3.9% | 86,609 | 6.6% | 105,456 | 7.8% | 1,910,381 | 8.2% | 2,165,967 | 8.7% |
| Rhentu preifat | | | | | | | | | | | | |
| Landlord preifat neu asiantaeth gosod tai | 8,196 | 10.4% | 10,048 | 12.3% | 164,792 | 12.7% | 194,845 | 14.5% | 3,566,467 | 15.3% | 4,468,534 | 18.0% |
| Arall | 1,105 | 1.4% | 2,123 | 2.6% | 19,462 | 1.5% | 33,797 | 2.5% | 333,711 | 1.4% | 554,997 | 2.2% |
| Yn byw heb dalu rhent | 1,352 | 1.7% | 116 | 0.1% | 20,381 | 1.6% | 2,183 | 0.2% | 315,491 | 1.4% | 32,697 | 0.1% |

Dadansoddiad:

- *Mae nifer yr aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin sy'n berchen ar eu heiddo yn llwyr wedi cynyddu o 41.4% i 43.6% ac mae'n parhau i fod yn uwch o lawer nag yng Nghymru (38%) ac yng Nghymru a Lloegr (32.8%).*
- *Cafwyd symudiad oddi wrth gael morgais/benthyciad at rentu, ac mae'r prif gynnydd mewn llety rhentu preifat.*
- *Mae nifer yr aelwydydd sy'n rhentu gan y cyngor wedi lleihau yn Sir Gaerfyrddin, yng Nghymru ac yng Nghymru a Lloegr.*
- *Hefyd, cafwyd gostyngiad yn nifer y bobl sy'n byw heb dalu rhent, er bod y ffigurau hyn yn gymharol isel o'u cymharu â mathau eraill o ddeiliadaeth.*

Diffiniad:

Aelwyd

Y diffiniad o aelwyd yw un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt yn perthyn i'w gilydd o reidrwydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac sy'n rhannu cyfleusterau coginio, ac ystafell fyw neu lolfa neu le bwyta. Rhaid i aelwyd gynnwys o leiaf un person.

Deiliadaeth:

Mae deiliadaeth yn rhoi gwybodaeth ynghylch pa un a yw aelwyd yn rhentu neu'n berchen ar y llety y mae'n byw ynddo ac, os yw'n ei rentu, yn cyfuno hyn â gwybodaeth am y math o landlord sy'n berchen ar y llety neu'n ei reoli.

Deiliadaeth – rhentu preifat, arall:

Mae 'llety rhentu preifat, arall' yn cynnwys llety sy'n cael ei rentu gan gyflogwr aelod o'r aelwyd, perthynas neu ffrind aelod o'r aelwyd, neu lety arall nad yw'n llety rhentu cymdeithasol.

Deiliadaeth – rhentu cymdeithasol, arall:

Mae 'llety rhentu cymdeithasol arall' yn cynnwys llety sy'n cael ei rentu gan landlord cymdeithasol cofrestredig, cymdeithas tai, cydweithrediaeth tai neu ymddiriedolaeth elusennol.